# Wythnos 2 / Cyfnod sylfaen CA1
# Gwreiddiau ac Ystyr

## Cynllun y sesiwn

**Prif neges:** 'Duw a'm gwnaeth i, a dwi'n arbennig'

### Adnod allweddol:

**Effesiaid 2:10**

*'Duw sydd wedi'n gwneud ni beth ydyn ni. Mae wedi'n creu mewn perthynas â'r Meseia Iesu, i ni wneud yr holl bethau da mae e wedi'u trefnu ymlaen llaw i ni eu gwneud.'*

### Adnoddau:

- Lluniau o ddydd a nos, awyr, tir, coed, planhigion, ffrwythau, lleuad, haul, sêr, pysgod, adar, anifeiliaid a phobl
- Taflen A4 wedi'i rhannu'n ddau hanner, un hanner wedi'i labelu 'Hunan-bortread', a'r hanner arall 'Pwy wyt ti fwyaf tebyg iddo?'
- Cyfleusterau i wylio clip ffilm YouTube: **www.youtube.com/watch?v=qHu352QwXXM**
- Rhai lluniau o gampweithiau celf (NEU eu rhoi mewn cyflwyniad PowerPoint), o luniau fel y Mona Lisa (Leonardo), Water Lilies (Monet) a Starry Night (Van Gogh)
- Ffrâm llun gwag

**GWREIDDIAU** *AC YSTYR* – **EXODUS** *A RHYDDID* – **ALLTUDIAETH** *A HEDDWCH* – **MESEIA** *A CHARIAD* – **YSBRYD** *A CHYMUNED* – **GOBAITH** *A CHARTREF*

# 'Twirl' o Gariad

Dewiswch wirfoddolwr a rhoi mwgwd arno neu gofynnwch iddo wynebu'r wal (fel na allant weld y tri gwirfoddolwr arall sydd ar fin cael eu dewis). Dewiswch dri gwirfoddolwr arall (gan fod yn ofalus i beidio defnyddio eu henwau wrth eu dewis), a rhowch rifau 2, 3, a 4 iddynt. Rhowch gwestiwn yr wythnos i wirfoddolwr rhif 1 - os nad oes mwgwd arno gall ddarllen y cwestiwn yn uchel, neu os yw yn gwisgo mwgwd, gall yr arweinydd ei ddarllen (os bydd y rhai iau yn ei chael hi'n anodd i ddarllen y cwestiwn, efallai y bydd angen i'r arweinydd ei ddarllen). Dylech annog gwirfoddolwr 1 i wrando'n ofalus ar yr atebion y mae gwirfoddolwyr rhif 2, 3 a 4 yn eu rhoi. Rhaid iddyn nhw ddewis yr ateb gorau - a pwy bynnag maen nhw'n ei ddewis fel yr enillydd fydd yr un maen nhw'n rhannu'r siocled 'Twirl' gyda nhw (gellir defnyddio unrhyw far siocled dau ddarn fel Twix yn lle Twirl).

Cwestiwn yr wythnos hon yw: Pa air yn dechrau gyda 'P' wnaethon ni ei ddysgu yn y Beibl yr wythnos diwethaf? (Ateb: Pwerus.)

Pam mae'r Beibl mor bwerus? (Ateb: Oherwydd mai gair Duw yw'r Beibl a gall newid bywydau pobl.)


***Addasu ar gyfer Zoom***

- Gellir dal chwarae'r gêm os ar Zoom hefyd - yn syml, mae angen i wirfoddolwr 1 roi mwgwd ei hun ymlaen o flaen y sgrin
- Pan ddewiswch eich tri gwirfoddolwr ychwanegol, ysgrifennwch eu henwau ar bapur a'u dal at y sgrin, fel y gallant weld a gwybod pwy rydych chi wedi'i ddewis
- Bydd angen i chi gael bar o Twirl gyda chi wrth eich ymyl i'w ddangos ar y sgrin ac esgus ei roi i'r enillwyr terfynol

# Cychwyn gyda'r Beibl

**Cyfeiriwch at adnod allweddol y Beibl - os ydych chi'n defnyddio papur, ysgrifennwch yr adnod ar ddarnau gwahanol o bapur fel yn y lluniau isod. Darllenwch yr adnod yn uchel gyda'ch gilydd**

**Dechreuwch bob darlleniad gyda'r llinellau hyn: *'Mae'r Beibl yn LLAWN o eiriau Duw. Mae'n gist drysor ryfeddol, yn llawn o bethau hardd a phwysig. Beth sydd ganddo i'w ddweud wrthym ni heddiw?'***




***Addasu ar gyfer Zoom***

- Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw cael yr adnod ar PowerPoint a rhannu eich sgrin
- Gallwch hefyd ei ysgrifennu ar bapur a'i ddal i fyny at y sgrin

# Gweithgaredd: Fideo

Gwyliwch y ffilm God's Story ar YouTube – Creation: **www.youtube.com/watch?v=qHu352QwXXM**

# Gweithgaredd: Sgôr Seren

Gosodwch luniau ar y llawr o bethau a wnaeth Duw eu creu ar bob diwrnod y creu. Gofynnwch i'r plant geisio gosod y lluniau mewn trefn, o'r pwysicaf i'r lleiaf - yng ngolwg Duw. Wrth iddynt eu gosod mewn trefn, holwch nhw am y rheswm dros eu dewisiadau. Ar ôl iddynt gwblhau'r dasg, rhowch luniau 'pobl' yn gyntaf, a phopeth arall o dan hynny mewn ail linell hir.

**Cymhwyso:** Gwnaeth Duw lawer o bethau ac roeddent i gyd yn DDA, ond y peth pwysicaf a wnaeth oedd ni.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Dangoswch nifer o luniau ar PowerPoint
- Caniatewch i'r plant benderfynu ar y drefn maent am eu gosod

# Gweithgaredd: Rhowch floedd

Gwahoddwch y grŵp i ymuno â chi wrth i chi ddatgan y canlynol yn uchel gyda'ch gilydd:
**Rydyn ni** (pwyntiwch at eich hun)
**wedi ein gwneud** (symudwch eich dwylo fel petai yn mowldio clai chwarae)
**i fod yn debyg iddo** (pwyntiwch i'r awyr gyda'ch bys)

# Gweithgaredd: Wedi'n creu ar ddelw Duw

Mae angen darn o bapur wedi'i rannu'n ddau hanner ar bob plentyn. Ar un hanner mae ganddyn nhw 60 eiliad i dynnu hunan-bortread (wyneb yn unig) o dan y pennawd 'Hunan-bortread'. Ar hanner arall y dudalen, caniatewch 60 eiliad arall iddynt er mwyn tynnu portread o'r person yn eu teulu y maen nhw fwyaf tebyg iddo (o ran edrychiad neu gymeriad). Gadewch amser i'r plant ddweud wrthych chi sut maen nhw'n credu eu bod yn debyg i'r person o'u dewis.


**Cymhwyso:** Gallwn 'edrych' fel pobl eraill yn ein teulu a gallwn 'ymddwyn' fel pobl eraill yn ein teulu. Gallwn hefyd edrych a gweithredu fel Duw - oherwydd gwnaeth i ni fod yn debyg iddo.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Gofynnwch i deuluoedd sicrhau bod papur a phensiliau ar gael ganddynt ymlaen llaw cyn cychwyn y sesiwn
- Gall plant wneud hyn gartref ond gwnewch iddo fod yn debycach i gêm, a sicrhau bod yr amserydd yn cael ei osod a'i gadw
- Caniatewch i bawb ddangos eu lluniau yn y diwedd

# Gweithgaredd: Rhowch floedd

Fel uchod, gwahoddwch y plant i ddatgan eto:
**Rydyn ni** (pwyntiwch at eich hun)
**wedi ein gwneud** (symudwch eich dwylo fel petai yn mowldio clai chwarae)
**i fod yn debyg iddo** (pwyntiwch i'r awyr gyda'ch bys)



# Gweithgaredd: Mae Seimon yn Dweud

Dechreuwch gyda gêm syml gan ddefnyddio'r rheolau arferol. Dim ond os yw 'Mae Seimon yn Dweud… cyffwrdd eich pengliniau… crafu eich pen… neidio i fyny ac i lawr' ac ati y dylent wneud hynny. Yna ar ôl chwarae'r gêm am ychydig, newidiwch y rheolau. Y tro yma newidiwch y gêm i 'Mae Duw yn dweud'. O hyn ymlaen bydd yn rhaid iddyn nhw actio pethau mae Duw yn eu dweud. Caniatewch ychydig o amser i'r plant feddwl pa fath o symudiadau sy'n gweithio ar gyfer y canlynol (yn seiliedig ar Ffrwythau'r Ysbryd yn Galatiaid 5:22-23).

- Mae Duw yn dweud byddwch yn garedig (Gofynnwch iddyn nhw actio 'gweithredoedd caredig' tra byddwch chi'n dyfalu beth ydynt.)
- Mae Duw yn dweud helpwch bobl eraill
- Mae Duw yn dweud carwch bawb o'ch cwmpas
- Mae Duw yn dweud carwch y bobl nad ydych chi'n eu hoffi
- Mae Duw yn dweud byddwch yn ffrind da
- Mae Duw yn dweud byddwch yn dyner
- Mae Duw yn dweud byddwch yn ddibynadwy
- Mae Duw yn dweud dangoswch gariad at eraill
- Mae Duw yn dweud gwnewch eraill yn hapus
- Mae Duw yn dweud dangoswch heddwch

**Cymhwyso:** Efallai bod gennych drwyn eich tad, neu lygaid eich mam, efallai eich bod chi'n glyfar fel eich nain neu'n ddoniol fel eich taid - ond rydyn ni'n arbennig oherwydd rydyn ni wedi ein gwneud i fod fel Duw. Pan rydyn ni'n garedig, yn dda, yn dyner, yn heddychlon, rydyn ni'n bod 'fel Duw'. Rydyn ni i gyd wedi cael ein gwneud i fod fel Duw.

# Gweithgaredd: Rhowch floedd

Fel uchod, gwahoddwch y plant i ddatgan eto:
**Rydyn ni** (pwyntiwch at eich hun)
**wedi ein gwneud** (symudwch eich dwylo fel petai yn mowldio clai chwarae)
**i fod yn debyg iddo** (pwyntiwch i'r awyr gyda'ch bys)

# Gweithgaredd: Hunlun Arbennig

Dangoswch dau neu dri o gampweithiau celf i'r plant (e.e. y Mona Lisa (Leonardo), Water Lilies (Monet) a Starry Night (Van Gogh)
Gofynnwch i'r plant beth yw eu barn am y lluniau - graddiwch nhw yn nhrefn y gorau i'r gwaethaf.
**Cymhwyso:** Mae'r paentiadau hyn yn enwog iawn. Mae pobl yn meddwl eu bod mor dda maen nhw'n eu galw'n GAMPWEITHIAU (mae hynny'n golygu mai dyma rai o'r lluniau gorau i gael eu paentio erioed). Yn y Beibl, dywed Duw mai CHI yw ei Gampwaith Ef (Effesiaid 2:10). Rydych chi'n un o'r pethau gorau a wnaeth Duw erioed. Fe wnaeth ni i fod yn debyg iddo fe.

***Addasu ar gyfer Zoom***
Gall pob plentyn yn ei dro edrych ar y sgrin a dweud ym mha bynnag ffordd maen nhw'n hoffi, 'Rwy'n arbennig oherwydd fy mod i'n gampwaith Duw.'

**Cymhwyso cyn cloi**
Os ydych adref, cymerwch hunlun ar eich ffôn ac argraffwch y llun ar argraffydd lliw - ysgrifennwch neu gofynnwch i oedolyn ysgrifennu ar y llun 'Rwy'n arbennig oherwydd fy mod yn gampwaith Duw'.
Piniwch ef yn rhywle y gallwch ei weld bob dydd i'ch atgoffa eich bod yn arbennig, ac i'ch atgoffa y GALLWCH ddewis bod fel Duw mewn unrhyw sefyllfa.

# Gweddi Greadigol

Casglwch y grwp at ei gilydd i weddïo. Wrth i chi weddïo, daliwch ffrâm llun gwag dros eich wyneb, edrychwch drwyddo a gweddïwch…

*Diolch Arglwydd dy fod wedi ein gwneud ni mor arbennig.*

*Diolch mai ni yw'r peth pwysicaf a wnaethost.*

*Helpa ni i gofio bob dydd y gallwn ni fod fel ti.*

*Helpa ni i fod yn debycach i ti bob dydd.*

*Ni yw dy gampwaith.*

*Rydym wedi'n creu gennyt i fod fel ti. Amen*

***Addasu ar gyfer Zoom***

Gofynnwch i deuluoedd roi ffrâm llun gwag i'w plentyn gyda'r cefn a gwydr wedi'i dynnu.

# Gweithgaredd Crefft

Gan ddefnyddio darnau o gerdyn, gwnewch ffrâm llun gyda'r geiriau 'Mi rydw i'n arbennig, oherwydd fi yw campwaith Duw' wedi'i ysgrifennu o amgylch y ffrâm. Pan gyrhaeddwch adref, ychwanegwch lun ohonoch chi'ch hun ynddo a'i hongian ar wal.

## Sesiwn nesaf:

Sesiwn 3: Exodus *a Rhyddid*

